



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau athrawon

Canlyniad yr ymgynghoriad ar y model newydd i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau athrawon

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn crynhoi safbwyntiau ar yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r model arfaethedig ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru.

Camau gweithredu gofynnol Dim – er gwybodaeth yn unig

Rhagor o wybodaeth Dylid anfon cwestiynau am y ddogfen hon i:
Cangen Cyflog ac Amodau Athrawon
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@llyw.cymru



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Copiau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau?_ga=2.192556463.480110507.1532073077-39485594.1525447447

Dogfennau cysylltiedig Ymgynghoriad ar y model newydd i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-03/180309-model-arfaethedig-i-bennu-cyflog-ac-amodau-athrawon_0.pdf

Cynnwys

Cefndir	4
Methodoleg	5
Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd	6
Rhestr o ymatebwyr	7
Negeseuon allweddol	8
Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	9
Camau nesaf	23

Cefndir

Ar hyn o bryd, Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru a Lloegr. Bydd y pŵer i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru o 30 Medi 2018 ymlaen o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu mai Gweinidogion Cymru fydd yn pennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019 ymlaen.

O fis Medi 2018 ymlaen, pan fydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon, bydd angen i ni gyflwyno mecanwaith (proses enghreifftiol) i benderfynu sut i wneud hyn mewn ffordd a fydd yn cefnogi ein nodau ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn y ffordd orau.

Ochr yn ochr â'r newidiadau sylfaenol i'r system addysg ehangach yng Nghymru, mae cael y cyfrifoldeb i bennu cyflog ac amodau athrawon yn rhoi cyfle i ni ddatblygu model cyflog priodol i Gymru hefyd – i ystyried sut gall hyn ein cefnogi ni orau i gyflawni ein diwygiadau ond, yn bwysig hefyd, i sicrhau fod gennym broffesiwn addysgu brwdfrydig iawn hefyd sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu system addysg o safon uchel.

Methodoleg

Gofynnodd yr ymgynghoriad am adborth gan unigolion a sefydliadau ar y model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon.

Cafodd cyfnod ymgynghori llai o wyth wythnos ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan fod proses helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i chynnal yn ystod y deuddeg mis cyn y cyfnod ymgynghori. Felly, cynhaliwyd yr ymgynghoriad am wyth wythnos rhwng 9 Mawrth a 4 Mai 2018.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, cafodd erthyglau newyddion eu cynnwys yng nghylchlythyron Dysg cyn 11 oed ac ôl 11 oed, a'u trydar ar sianel Addysg Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig, ac ymddangosodd eitem newyddion ar wefan Dysgu Cymru.

Gofynnwyd dau gwestiwn penodol (cwestiwn 17 ac 18) er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer llunio polisïau.

Roedd modd ymateb yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy e-bost neu'r post. Derbyniodd pob ymatebydd neges e-bost yn cadarnhau bod yr ymateb wedi'i dderbyn.

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd

Derbyniwyd cyfanswm o 74 o ymatebion – 61 o ymatebion gan unigolion ac 13 o ymatebion a gyflwynwyd gan undebau llafur, cyrff statudol a chynrychiolwyr cyflogwyr.

Derbyniwyd ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod y rhan fwyaf wedi defnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad, roedd ymatebion yr undebau llafur a chynrychiolwyr o gyrff statudol a chyflogwyr wedi'u cyflwyno ar ffurf naratif ac ar dabled y ddogfen ymateb ar-lein. O ganlyniad, nid yw pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn.

Mae ymatebion naratif wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad cryno hwn trwy gynnwys sylwadau a wnaed o dan adran y cwestiwn mwyaf perthnasol. Roedd nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys llawer o gynnwys ac yn darparu naratif manwl. Mae sylw dyledus wedi'i roi i ymatebion gan unigolion a/neu sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau o unigolion.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr eisiau aros yn ddiennw, ac mae'r dymuniad hwn wedi'i barchu gydol yr adroddiad cryno hwn.

Ymatebwyr

Undebau Llafur	7
Voice Cymru	
Undeb Prifysgolion a Cholegau	
Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (Cymru)	
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau	
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau	
UCAC	
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru	
Cyflogwyr a Chyrff Statudol	3
Cyngor Abertawe (Cyflogres)	
Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd	
Cyngor y Gweithlu Addysg	
Ymatebion gan Unigolion	12
C Armitstead	
D Mayhead	
O Beckett	
M Rugen-Hankey	
P ap Seisyllt	
G Williams	
M Brown	
T M Gwynarth	
J Thomson	
M Perkins	
C Bradford	
eTeach	
Dienw	52

Negeseuon allweddol

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r Model Ymgysylltu ag Athrawon arfaethedig fel mecanwaith i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon.

Roedd hyn yn amodol ar sylwadau a nodir isod, i adlewyrchu newidiadau bach i gamau penodol o'r model arfaethedig, ac mewn ceisiadau eraill am eglurhad o'r camau gwahanol.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig, roedd nifer o unigolion wedi cynnig defnyddio cydfargeinio fel model amgen i'w ystyried. Mae hyn yn cael sylw yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 16. Mae diwygiadau arfaethedig i'r model ag ymgynghorwyd ar wedi'u crynhoi wrth drafod y cwestiynau priodol.

O'r ymatebion a dderbyniwyd gan undebau llafur a chynrychiolwyr o gyrff statudol a chyflogwyr, awgrymwyd camau a modelau amgen, sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o gwestiynau penodol.

Cafwyd gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig i gynnwys cam ymgynghoriad cyhoeddus yn y mecanwaith penderfynu, ac yn gyffredinol ni chafodd y cynnig hwn ei gefnogi yn yr ymatebion a dderbyniwyd.

Ar lefel unigol, roedd nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn gwrthwynebu datganoli pwerau i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon i Gymru, er na ofynnwyd y cwestiwn hwnnw yn yr ymgynghoriad.

Mynegwyd nifer o bryderon bod yr amserlen arfaethedig yn rhy dynn ac na fyddai'n ddigon hir i roi sylw dyledus i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon.

Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Rhaid nodi na wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn.

Adran A – Y broses gyffredinol arfaethedig

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyflog ac amodau athrawon barhau i fod yn statudol a blynyddol eu natur?

	Cyfanswm
Cytuno	70
Anghytuno	1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1

Cafwyd cefnogaeth gryf i'r cynnig y dylai cyflog ac amodau athrawon barhau i fod yn statudol a blynyddol eu natur.

Er bod rhai ymatebwyr wedi nodi y gallai ymddangos yn fanteisiol i ysgolion yng Nghymru allu pennu eu cyflog a'u hamodau eu hunain at ddibenion recriwtio a chadw staff, roedd y rhan fwyaf yn cefnogi'r cynnig y dylai cyflog ac amodau athrawon barhau i fod yn statudol a blynyddol eu natur.

Trwy sicrhau bod cyflogau'n statudol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gallwn sicrhau bod pob un o'r athrawon sy'n gweithio ym maes gwasanaeth cyhoeddus yn derbyn tâl ar y gyfradd briodol, ac y bydd pob un yn derbyn codiadau cyflog. Mae hyn, ynddo'i hun, yn hyrwyddo sicrwydd, yn dileu gwahaniaethau ac yn sicrhau triniaeth gyfartal.

Nodwyd y byddai pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru yn swyddogaeth newydd i Weinidogion Cymru. Byddai'r broses o adolygu cyflog ac amodau athrawon bob blwyddyn a dilyn proses statudol yn ffordd bwysig o amddiffyn y proffesiwn addysgu.

Hefyd, roedd yr ymatebion yn cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau elfen o gymaroldeb rhwng cyflog ac amodau athrawon a chyflog ac amodau proffesiynau eraill yng Nghymru.

Cwestiwn 2 – Ydy'r model arfaethedig yn briodol ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru?

	Cyfanswm
Cytuno	32
Anghytuno	24
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	16

O safbwynt y model sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad, er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y Model Ymgysylltu ag Athrawon arfaethedig yn briodol ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon, roedd nifer o ymatebwyr yn anghytuno, gan nodi eu pryderon yn ymwneud â'r cynnig.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod y model arfaethedig yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyfraniadau eang ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ei phartneriaeth â'r proffesiwn addysgu, a'i fod yn cael ei lywio gan ddull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth hefyd.

Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn dangos bod cytuno â'r cynnig yn amodol ar roi rhagor o ystyriaeth i ddatblygu camau allweddol y model a rhoi sylw dyledus i'r amserlenni perthnasol. Mae hyn yn cynnwys rhoi rhagor o ystyriaeth i rôl a chwmpas y fforwm partneriaeth yn y broses.

Mynegwyd pryderon y gall cyfanswm y camau olygu bod y model arfaethedig yn feichus, gan effeithio yn ei dro ar yr amserlen a ganiateir ar gyfer y model arfaethedig, sy'n annigonol ym marn rhai ymatebwyr. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt yma wedi'i gynnwys yn yr ymateb i gwestiwn 4.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r model arfaethedig yn gwrthwynebu cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r broses. Mae'r mater o ymgynghoriad cyhoeddus – sydd wedi'i gynnwys yn y model ymgynghori yng Ngham 6 – yn cael rhagor o sylw yn yr ymateb i Gwestiwn 14.

Roedd ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno â'r model yn cefnogi dull gweithredu amgen ar sail cydfargeinio.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo egwyddorion ymestyn trefniadau cydfargeinio ac ehangu mynediad i undebau llafur, dylid nodi bod cyflog ac amodau athrawon yn unigryw gan eu bod yn statudol, a bod fframwaith yn cael ei bennu ar lefel genedlaethol ac mae'n rhaid i gyflogwyr ei ddilyn.

Mae problemau yn ymwneud â materion fel dehongli neu weithredu eisoes yn bodoli yn y system bresennol, ac nid yw undebau a chyflogwyr yn cynnal trafodaethau uniongyrchol / cydfargeinio ar hyn o bryd. Mae hyn yn wahanol i faterion cytundebol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol statudol, fel hawliau'n ymwneud â mamolaeth neu ddileu swydd.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y gallai'r model ymgysylltu ag athrawon arfaethedig gefnogi ac ategu'r gwaith o ddatblygu'r system addysg yng Nghymru?

	Cyfanswm
Cytuno	32
Anghytuno	19
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod bod datganoli pwerau i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon i Gymru yn cynnig cyfleoedd.

Yn ôl yr ymatebion, os yw'r holl randdeiliaid yn ymgysylltu â'r model arfaethedig ac os yw athrawon yn credu y bydd y model yn deg ac yn dryloyw, gallai cyflog ac amodau cenedlaethol fod yn elfen hanfodol o sicrhau system addysg ragorol yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn cymeradwyo cynigion i gynnwys ac ymgysylltu ag athrawon, cyn belled â bod yr ymgysylltiad yn ddiffuant, yn ystyrllon ac yn agored i bawb.

Fodd bynnag, yn ôl yr ymatebwyr a anghytunodd â'r cwestiwn, byddai'r cam o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol llawn yn y model arfaethedig yn drysu'r broses, gan awgrymu y gallai arwain at ddiffyg cydlyniant ac eglurdeb o safbwynt cyfeiriad strategol.

Cwestiwn 4 – Ydy'r amserlen gyffredinol arfaethedig yn ymarferol?

	Cyfanswm
Cytuno	31
Anghytuno	26
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod yr amserlen arfaethedig yn ymarferol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon nad yw'r cynnig yn cynnwys amserlenni manwl ar gyfer trafodaethau cychwynnol ag undebau llafur, y broses o benderfynu ar y cylch gwaith, yr amserlenni ar gyfer cais y corff adolygu am dystiolaeth ac unrhyw sesiynau dystiolaeth lafar, yr amserlen ar gyfer derbyn argymhellion, ymgynghori pellach â'r proffesiwn a'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno fod y yr amserlen yn heriol, ond cyn belled â bod yr holl randdeiliaid allweddol yn ymrwmo i'r broses, rydym yn hyderus y bydd modd gweithredu'n unol â'r amserlen gyffredinol. Mae'n amlwg y bydd oedi ar unrhyw adeg yn effeithio ar y gallu i roi'r broses gyfan ar waith. Mae mewnbwn cadarnhaol gan randdeiliaid mewnlol ac allanol gydol y broses yn hanfodol i'r gwaith o gyflwyno'r model, a bydd angen rheoli amser a monitro'r broses yn agos yn ystod pob cam wrth iddo ddatblygu.

Adran B – Camau unigol y broses arfaethedig

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno mai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddylai penderfynu ar y cylch gwaith drafft cychwynnol sy'n amlinellu'r telerau a'r materion i'w hystyried?

	Cyfanswm
Cytuno	31
Anghytuno	27
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	14

Cytunodd yr ymatebwyr fod yr elfen hon o'r broses wedi gweithio'n dda hyd yn hyn yn Lloegr, o safbwynt sut mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo cylch gwaith y Corff Adolygu Athrawon Ysgol ar hyn o bryd, ond roeddent yn cydnabod bod angen cynnwys safbwyntiau'r Fforwm Partneriaeth yn y broses yn ffurfiol, o ystyried y dull partneriaeth gymdeithasol a ragwelir ar gyfer Cymru.

Er mai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fydd yn penderfynu'r cylch gwaith ddrafft cychwynnol ar gyfer trfodaeth gan y Fforwm Partneriaeth, rhagwelir unwaith bydd y system wedi'i sefydlu gall yna hefyd bod feysydd i'w ystyried yn parhau o argymhellion o gylchoedd tâl blaenorol.

Cwestiwn 6 – Ydy aelodaeth, maint a dosbarthiad arfaethedig y fforwm partneriaeth fel y nodir uchod yn briodol?

	Cyfanswm
Cytuno	32
Anghytuno	29
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	9

Roedd ymateb yr undebau llafur i'r cwestiwn hwn yn amlygu eu safbwyntiau gwahanol ar fanylion aelodaeth y Fforwm, a chynrychiolaeth yr undebau yn benodol. Cafwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig y dylai undebau sy'n cynrychioli athrawon fod â chynrychiolaeth gyfartal yn y fforwm partneriaeth arfaethedig.

Roedd sawl undeb llafur yn credu y dylai cynrychiolaeth undebau llafur yn y Fforwm Partneriaeth fod yn gymesur, gan adlewyrchu nifer aelodau'r undeb. Roedd ymatebion eraill yn pryderu am y dull gweithredu hwn, gan ddadlau bod angen sicrhau llais cyfartal i gynrychiolwyr yr undebau llafur oddi mewn i strwythur y Fforwm.

Er y pwysigrwydd o sicrhau bod y fforwm partneriaeth yn gynhwysol, mynegwyd pryder y gallai'r nifer fawr o aelodau olygu ei fod yn anodd ei reoli.

Codwyd pwyntiau eraill gan ymatebwyr, gan gynnwys:

- Y disgwyliad mai CLILC a fyddai'n cynrychioli awdurdodau lleol ac na fydd awdurdodau lleol unigol yn cael eu cynrychioli

- Cynrychiolaeth gan bob un o'r cyrff crefyddol/esgobaethol sy'n gyfrifol am ysgolion yng Nghymru
- Eglurhad ynglŷn â phwy fyddai'n cynrychioli Llywodraeth Cymru
- Mae'n bwysig sicrhau croestoriad a fydd yn caniatáu mewnbwn gan awdurdodau lleol o ardaloedd daearyddol gwahanol, gan gynnwys lleoliadau gwledig a threfol, er mwyn adlewyrchu profiad a safbwyntiau cyflogwyr ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y gall pwysoli cynrychiolaeth mewn unrhyw ffordd awgrymu bod safbwyntiau un undeb yn bwysicach na safbwyntiau undebau eraill.

Hefyd, gall rhannau o'r gweithlu nad ydynt yn aelodau o'r undebau llafur mwyaf deimlo eu bod wedi'u heithrio o'r broses. Rydym yn cytuno y dylai cynrychiolaeth cyflogwyr gynnwys sbectwm eang o gyflogwyr os oes modd h.y. ledled Cymru gan gynnwys ysgolion ffydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai manylion aelodaeth y fforwm partneriaeth aros yr un fath yn gyffredinol â'r hyn a argymhellir yn yr ymgynghoriad – h.y. grŵp tairochrog sy'n cynnwys

- (a) Dau gynrychiolydd o bob un o'r chwe undeb cydnabyddedig (cyfanswm o 12 aelod)
- (b) Wyth cynrychiolydd o blith cyflogwyr gan gynnwys:
 - i. Un cynrychiolydd Awdurdod Lleol o bob un o bedwar rhanbarth daearyddol y consortia
 - ii. Un cynrychiolydd o'r Awdurdod Esgobaethol
 - iii. Tri chynrychiolydd o Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gan gynnwys cynrychiolydd o CCAC a Gwasanaethau Cymorth i Lywodraethwyr
- (c) Pedwar swyddog Llywodraeth Cymru ym meysydd polisi Llywodraeth Leol, Addysg a Chyllid

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella ac egluro'r cam hwn o'r broses.

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno y dylai fforwm partneriaeth cymdeithasol fod â rhan yn y broses o bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon?

	Cyfanswm
Cytuno	39
Anghytuno	21
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn y broses bennu gyffredinol.

Ymysg y safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y bydd deialog dilyn ac ymgynghori â'r proffesiwn a rhanddeiliaid yn allweddol bwysig i lwyddiant y broses, gan wella statws y proffesiwn. Hefyd, cafwyd awgrymiadau fel ystyried cyfranogiad ehangach yn y broses yn ystod y cam cynnar, a phroses ar gyfer datrys unrhyw anghytuno posibl ar raddfa fawr. Nodwyd bod egluro'r pwyntiau hyn o'r dechrau'n hollbwysig i lwyddiant y model – yn enwedig o ystyried yr amserlen hynod gyfyngedig ar gyfer y broses gyfan.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno gyda chwmpas rôl y fforwm partneriaeth fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, o fewn y broses bennu?

	Cyfanswm
Cytuno	30
Anghytuno	19
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â chwmpas rôl y fforwm partneriaeth yn y broses bennu. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r canlynol:

- Rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn ag union fanylion rôl y fforwm.
- Rôl y fforwm partneriaeth wrth ddatblygu cylch gwaith Corff Adolygu Cymru.
- Ystyried safbwyntiau gwahanol.
- Rôl y fforwm wrth ystyried argymhellion Corff Adolygu Cymru.
- Cyfle i'r fforwm ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon hyn, a bydd yn gweithio'n agos â'r fforwm partneriaeth i sicrhau bod rôl y fforwm yn y broses yn glir. Er y bydd penderfyniadau'r fforwm yn unfrydol yn ddelfrydol wrth symud ymlaen, os nad oes modd dod i gytundeb, bydd safbwyntiau gwahanol yn cael eu cynnwys yn yr argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fynegi safbwyntiau yn y broses.

Cwestiwn 9 – Ydy'r amserlen arfaethedig ar gyfer y cam hwn o'r broses yn ymarferol?

	Cyfanswm
Cytuno	24
Anghytuno	24
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	21

Er bod ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gyfartal bron ym mhob un o'r tri chategori o ymatebwyr, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r amserlen dynn yn y cyswllt hwn a'r ffaith nad oedd digon o fanylion yn yr ymgynghoriad er mwyn penderfynu a yw'r amserlen yn ymarferol.

Hefyd, nodwyd y bydd angen cynnwys cam ychwanegol o bosibl er mwyn cymharu'r penderfyniad terfynol yn ffurfiol â phenderfyniad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod lefelau cyflog yn debyg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gall fod yn anodd cadw at yr amserlen, ond cyn belled â bod yr holl randdeiliaid allweddol wedi ymrwymo i'r broses, rydym yn hyderus y bydd modd gweithredu yn unol â'r amserlen gyffredinol.

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno bod angen sefydlu Corff Adolygu Cymru annibynnol i ddarparu cyngor annibynnol ac arbenigol digonol, yn hytrach na chomisiynu arbenigedd o'r fath yn uniongyrchol?

	Cyfanswm
Cytuno	43
Anghytuno	17
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	10

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod angen sefydlu Corff Adolygu annibynnol er mwyn darparu cyngor annibynnol ac arbenigol yn y broses bennu, cafwyd sylwadau cadarnhaol a rhai'n cynnwys rhybudd mewn ymateb i'r cwestiwn.

Er bod rhai ymatebwyr wedi cwestiynu a fyddai modd cael arbenigedd digonol yng Nghymru, roedd eraill wedi amlygu'r potensial i'r Corff Adolygu danseilio'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu gwella a'u hyrwyddo.

Roedd ymatebwyr eraill yn gefnogol, gan nodi y byddai'n well cael Corff Adolygu annibynnol sefydlog sy'n seiliedig ar dryloywder a chysondeb a fyddai'n gallu datblygu arbenigedd o ran y broses a chreu cysylltiadau proffesiynol dros amser â Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr.

Heb fecanwaith annibynnol o'r fath, mynegwyd pryderon y gallai Llywodraeth Cymru wynebu'r perygl o gyflogau athrawon yn datblygu'n bwnc dadleuol bob blwyddyn. Gallai hynny gael effaith niweidiol ar ysbryd athrawon ac ar y bwriadau da sy'n cefnogi sefydlu'r fforwm partneriaeth.

Ar gyfer hygrdedd y broses, bydd yn hollbwysig bod aelodau'r corff arfaethedig yn meddu ar yr arbenigedd gofynnol, gan gynnwys dealltwriaeth o gyd-destun a materion perthnasol

yng Nghymru. Hefyd, nodwyd y gost o gynnal y broses hon, a'r ffaith fod angen ystyried a mesur y gost yn erbyn unrhyw ddewisiadau amgen.

Mantais allweddol sefydlu corff adolygu cyflogau annibynnol i Gymru yw'r ffaith y gallai awdurdod annibynnol o'r fath fynegi barn annibynnol a diduedd ar yr holl faterion, gan ddod i gasgliadau a gwneud argymhellion yn sgil ystyriaeth ofalus ar sail tystiolaeth gan yr holl bartïon â diddordeb.

Gall corff adolygu sy'n cynnwys aelodau sydd wedi'u dethol a'u penodi ar sail eu meysydd arbenigedd ac sydd â chylch gwaith wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru fod yn ddull priodol o hwyluso newid ac arloesi hefyd, ac yn ei dro gallai hynny gefnogi ac ategu'r broses o ddatblygu'r system addysg newydd yng Nghymru.

Cwestiwn 11 – Sut ddylid dewis a phenodi'r corff/panel? Er enghraifft, y bwriad yw dewis a phenodi aelodau corff adolygu Cymru drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus agored, yn seiliedig ar feysydd arbenigedd allweddol.

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig, sef y byddai'n briodol dewis a phenodi aelodau drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus agored, ar yr amod y bydd gan aelodaeth y corff adolygu'r cyfuniad gofynnol o sgiliau, profiad ac arbenigedd. Pwysleisiwyd bod angen i'r Corff fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru er mwyn gallu datblygu.

Nododd yr ymatebwyr eu bod yn rhagweld y byddai'r Corff Adolygu'n cynnwys nifer o gynrychiolwyr o'r sector addysg, a nodwyd ei bod yn hanfodol bod y rhai sy'n gwneud yr argymhellion yn deall y cyd-destun er mwyn eu gweithredu.

Bydd cyfansoddiad y Corff Adolygu yn cael ei ystyried yn bellach. Er hynny, rhagwelir y bydd yn cynnwys aelodau ag arbenigedd mewn: ysgolion Cymraeg; gwybodaeth am y sector addysg ehangach; economeg; persbectif cyfreithiol; cyflogaeth gan gynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a chyllid sector cyhoeddus penodol.

Cwestiwn 12 – Argymhellir y byddai ysgrifenyddiaeth glercaidd yn cefnogi gwaith corff adolygu Cymru. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Sifil (Llywodraeth Cymru)?

	Cyfanswm
Cytuno	35
Anghytuno	23
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, ond mynegwyd safbwyntiau gwahanol ynglŷn â sut y dylid darparu cymorth yr ysgrifenyddiaeth glercaidd, gan gynnwys:

- Mae angen sicrwydd bod yr ysgrifenyddiaeth yn annibynnol ar y rhannau hynny o Lywodraeth Cymru a allai ddylanwadu ar y cylch gwaith neu gyflwyno sylwadau i'r corff adolygu.
- Mae'n rhaid i'r ysgrifenyddiaeth berthyn i Adran o'r Llywodraeth na fyddai'n elwa ar ganlyniad penderfyniadau'r corff adolygu.
- Dylai gael ei weinyddu gan gorff cwbl annibynnol.
- Dylai gael ei weinyddu yn yr un modd ag ysgrifenyddiaeth y Corff Adolygu Athrawon Ysgol.

Rhoddir rhagor o ystyriaeth i'r cwestiwn o sut ac o ble y caiff yr ysgrifenyddiaeth glercaidd ei henwebu er mwyn sicrhau bod elfennau allweddol annibyniaeth a didueddrwydd yn cael eu cynnal.

Cwestiwn 13 – A yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y cam hwn o'r broses yn ymarferol?

	Cyfanswm
Cytuno	27
Anghytuno	24
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn credu bod yr amserlen ar gyfer y cam hwn o'r broses arfaethedig yn ymarferol, ond roeddent yn cydnabod bod hyn yn amodol ar gyfeiriad clir (trwy'r cylch gwaith), ar bennu rôl y Cadeirydd yn glir ac ar sicrhau bod mecanweithiau ar waith ar gyfer comisiynu ymchwil a chasglu tystiolaeth.

O safbwynt yr amserlen ar gyfer cwblhau'r ymarferiad penodiadau cyhoeddus i benodi'r Cadeirydd ac aelodau o'r Corff Adolygu - a'r ysgrifenyddiaeth glercaidd - mynegwyd pryderon ynglŷn â'r gallu i sefydlu'r corff hwn a'i ysgrifenyddiaeth mewn amser byr. Mae'r sylwadau hyn wedi'u nodi ac mae ymateb ar ymarferoldeb yr amserlen wedi'i gynnwys yng Nghwestiwn 4 uchod.

Cwestiwn 14 – A ddylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar benderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, cyn cyflwyno newidiadau i'r Gorchymyn Cyflogau a gweithredu'r Gorchymyn?

	Cyfanswm
Cytuno	30
Anghytuno	38
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	4

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar benderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet cyn gweithredu'r gorchymyn cyflogau.

Cafwyd sylwadau cefnogol i'r cynnig gan leiafrif o ymatebwyr, a nododd fod ymgynghoriad cyhoeddus yn gyfle i leisio barn ar y cynigion. Fodd bynnag, mynegwyd gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar berthnasedd ymgynghoriad cyhoeddus, a mynegwyd safbwyntiau cryf y byddai ystyriaeth o'r fath yn fwy priodol pe bai'n cael ei neilltuo i randdeiliaid allweddol – h.y. gydag undebau a chyflogwyr.

Roedd yr ymatebion i'r pwynt hwn yn cynnwys y canlynol:

- Rydym yn gwrthwynebu'r cam arfaethedig hwn yn llwyr ac ni allwn orbwysleisio pa mor gryf yw ein pryderon yn ei gylch.
- Er bod rhywfaint o gydymdeimlad â bwriad y datganiad hwn ... nid ydym yn credu bod y cam arfaethedig hwn o'r broses yn angenrheidiol.
- Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw grŵp arall yn y sector cyhoeddus yng Nghymru neu tu hwnt sy'n gorfod cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Un o ganlyniadau anfwriadol hyn yw'r ffaith y gallai ymddangos nad yw'r llywodraeth yn gwerthfawrogi cyfraniad y proffesiwn addysgu.
- Ni ddylid ymgynghori â neb arall ac eithrio'r proffesiwn. Ni chynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus ar gyflogau ar gyfer unrhyw gangen arall o'r gwasanaethau cyhoeddus, ac nid oes unrhyw gyfiawnhad o gwbl dros gyflwyno hynny yma.

Ar ôl adlewyrchu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod ymgynghoriad â randdeiliaid allweddol yn ddigonol yng nghyd-destun y mecanwaith arfaethedig.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'r ymgynghoriad yng Ngham 6 o'r model pennu arfaethedig, a bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn gofyn i randdeiliaid allweddol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion. Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys: Cymdeithasau All, ALLau, Cyrff sy'n cynrychioli diddordebau cyrff llywodraethwyr ysgol, a Chyrff sy'n cynrychioli diddordebau athrawon. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried sylwadau ysgrifenedig rhanddeiliaid cyn cyhoeddi penderfyniad terfynol.

Cwestiwn 15 – Ydy'r amserlen ar gyfer y cam hwn o'r broses yn ymarferol?

	Cyfanswm
Cytuno	24
Anghytuno	23
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	25

Bydd y newid i'r cam ymgynghori yn y model pennu a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol yn caniatáu amserlen fyrrach ar gyfer ystyried ac ymateb.

Trwy newid ffocws yr ymgynghoriad i un sy'n canolbwyntio ar randdeiliaid allweddol, bydd yr amserlen gyffredinol arfaethedig yn fwy hyblyg, a bydd cyfle i ymestyn amserlenni rhannau penodol eraill o'r broses.

Bydd hyn yn helpu mynd i'r afael â phryderon cynharach a leisiwyd gan ymatebwyr ynglŷn ag ymarferoldeb yr amserlen arfaethedig.

Adran C – Cynigion eraill a sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 16 – Nodwch unrhyw awgrymiadau ar gyfer modelau neu newidiadau eraill i'r model ymgysylltu ag athrawon arfaethedig a nodwyd yn yr atodiad.

Diben y cwestiwn hwn oedd rhoi cyfle i ymatebwyr gyflwyno awgrymiadau ar gyfer modelau amgen neu newidiadau i'r model arfaethedig i'w hystyried.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys

- Cynnig model amgen ar sail Cydfargeinio.
- Cynnig model amgen sy'n disodli cam yr ymgynghoriad cyhoeddus â chyfnod o ymgynghori a negodi statudol, a chyfle i undebau a chyflogwyr perthnasol gyflwyno tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.
- Model sy'n seiliedig ar egwyddorion y model a fabwysiadwyd yn yr Alban.
- Cadw'r strwythur presennol ar hyn o bryd.
- Gwellu'r model arfaethedig – er enghraifft, uno camau 2 a 3 (fforwm partneriaeth a chorff adolygu) yn un grŵp.
- Adolygu effeithiolrwydd y model ar ôl ei gyflwyno er mwyn gwneud gwelliannau.
- Newid y cam ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi'i gynnig.

Cyn yr ymgynghoriad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o ddewisiadau gwahanol sydd wedi'u mabwysiadu ar lefel ryngwladol ar gyfer pennu cyflogau ac amodau athrawon. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y model sydd wedi'i gyflwyno yn yr Alban. Trafodwyd y modelau hyn ynghyd â'r dewisiadau sy'n cael eu ffafrio gan randdeiliaid allweddol.

Un elfen bwysig iawn gydol y broses ystyried oedd sut y byddai'r amrywiaeth o ddulliau gweithredu gwahanol yn cyflawni amcanion ac yn bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer y system yn y dyfodol – system sy'n cadw at ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi sy'n seiliedig ar bartneriaeth, cydweithio a thystiolaeth.

Yn ystod y broses o drafod, nodwyd cydfargeinio fel dull gweithredu i'w ystyried.

Oherwydd natur statudol cyflogau athrawon, mae angen dull gweithredu tairochrog, gyda'r Llywodraeth yn ceisio dod i gytundeb gyda chyflogwyr ac undebau; hefyd, mae angen i undebau a chyflogwyr/awdurdodau lleol gytuno ar faterion cyflwyno a gweithredol.

Mae cyflogau ac amodau'r rhan fwyaf o weithwyr cyflogedig yn y sector cyhoeddus yn cael eu pennu ar sail gytundebol sy'n cael ei chytuno rhwng y cyflogwyr a'r undebau fel arfer. Fodd bynnag, mae cyflogau ac amodau athrawon yn cael eu pennu ar sail statudol gan Weinidogion, cyn i gyflogwyr (awdurdodau lleol fel arfer) ac undebau gytuno/trafod gweithredu yn unol â'r gofynion statudol hyn. O ganlyniad, ni fyddai'n hawdd mabwysiadu'r dull cydfargeinio arferol sy'n cynnwys trafod/negodi rhwng dwy ochr (cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig).

Yn ogystal, mae natur cynrychiolaeth undebau ledled y gweithlu addysgu braidd yn ddarniog, a byddai'n anodd iawn osgoi rhoi elfennau penodol o'r gweithlu dan anfantais. Bydd y broses o gydfargeinio'n uniongyrchol â'r chwe undeb llafur yn creu problemau cynrychiolaeth hefyd, gan fod rhai undebau â llawer mwy o aelodau, ac i'r gwrthwyneb os yw'r undebau'n penderfynu ar yr unigolion arweiniol ar sail gymesur trwy niferoedd eu

haelodau. O ganlyniad, gallai fod yn anodd cynnwys safbwyntiau'r undebau bach, yn enwedig undebau penaethiaid, sy'n ymddangos yn groes i egwyddor y dull gweithredu partneriaeth.

Mae'r egwyddor o ehangu mynediad i undebau llafur yn cael ei chymeradwyo'n gryf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer athrawon yng Nghymru. O safbwynt y model arfaethedig, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylem fynd ymhellach na'r system bresennol sydd wedi'i gweithredu gan Weinidogion y DU dros y blynyddoedd diwethaf a mynd ati i gynnwys undebau yn y broses.

Mae undebau athrawon yn ymgysylltu â'u cyflogwyr (awdurdodau lleol) ar hyn o bryd ynglŷn â'r holl faterion cytundebol, ac ar ôl datganoli'r pwerau, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i bennu fframwaith statudol ar gyfer cyflogau athrawon. Bydd yn ofynnol i holl gyflogwyr y sector cyhoeddus weithredu yn unol â'r fframwaith hwn. Yn yr un modd â materion cytundebol, bydd undebau athrawon yn parhau i gymryd rhan mewn proses gydfargeinio er mwyn sicrhau bod y fframwaith statudol yn cael ei weithredu'n llawn ac yn deg.

Mewn ymateb i'r pwyntiau ychwanegol sydd wedi'u gwneud, nodir yn yr ymateb i Gwestiwn 14 y bydd y cyfnod ymgynghori arfaethedig yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn unig. Ar ôl cyflwyno'r model, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i graffu arno a'i adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol.

Cwestiwn 17 – Hoffem gael eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai'r model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau athrawon yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig o ran: i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Beth yw'r effeithiau posibl? Sut fyddai'n bosibl cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 18 – Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y model arfaethedig ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon er mwyn: i) cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. ii) Sicrhau nad oes effeithiau andwyol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gofynnwyd Cwestiwn 17 ac 18 er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer llunio polisiau, ac roeddent yn gofyn am safbwyntiau ar yr iaith Gymraeg. Ymatebodd lleiafrif o bobl i'r cwestiynau hyn, a nodwyd bod y cwestiynau'n debyg. Felly, bydd y dadansoddiad hwn yn cyfuno'r ddau gwestiwn. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr bwysigrwydd trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau cyhoeddiadau dwyieithog gydol y broses bennu, ochr yn ochr â sicrhau cyfleoedd i gyflwyno tystiolaeth yn y ddwy iaith, a bod tystiolaeth yn y ddwy iaith yn cael yr un parch ac ystyriaeth gan y Corff Adolygu annibynnol. Cafwyd cyfeiriad pellach at gyfansoddiad y Corff Adolygu, o safbwynt sicrhau bod arbenigedd mewn materion yn ymwneud ag addysg cyfrwng Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn cael ei gynrychioli. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau yma a bydd y model cytûn yn cydnabod pwysigrwydd ymdrin â'r Gymraeg a Saesneg yn gyfartal.

Cwestiwn 19 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt defnyddiwch y gofod isod i'w nodi.

Mynegwyd nifer fach o safbwyntiau yn y cwestiwn olaf hwn. Mae rhai o'r sylwadau wedi'u hychwanegu at naratif adrannau blaenorol lle bo hynny'n berthnasol. Roedd nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu datganoli pwerau i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon i Gymru. Nodir y sylwadau canlynol:

- Mae'n bwysig sicrhau bod aelodau'r Corff Adolygu yn deall y materion yn ymwneud â chyflog ac amodau athrawon, y system addysg yng Nghymru, addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog, a bod o leiaf 25% o'r panel yn gallu siarad yr iaith yn rhugl.
- Mae'n bwysig sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses yng Nghymru yn ymwybodol o ddatblygiadau yn Lloegr ... Wrth ystyried tystiolaeth, fel rhan o'r broses o ymateb i gylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet, byddai'n fanteisiol i Gorff Adolygu Cymru ymweld ag ysgolion mewn rhannau gwahanol o Gymru o dro i dro.
- Rydym yn gofyn am eglurhad ynglŷn ag a fydd y mater hwn yn cael ei drafod gan y Cynulliad Cenedlaethol neu ei Bwyllgorau.
- Mae'r broses hon yn ddiangen, yn cymryd gormod o amser ac yn ddryslyd. Rydych yn gofyn am safbwyntiau ar broses bosibl i ddatblygu proses i bennu cyflogau ac amodau. Mae'n rhy fiwrocraataidd, yn rhy gymhleth, ac mae yna berygl y bydd yn rhoi llai o werth ar athrawon yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU.
- Dylech ystyried amrywiaeth eang o gynrychiolwyr er mwyn sicrhau eich bod yn cynrychioli safbwyntiau'r proffesiwn addysgu'n iawn ar adeg bwysig fel hon.

Camau Nesaf

Bydd y swyddogaeth i bennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru o 30 Medi 2018 ymlaen o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018. Bydd angen i'r mecanwaith/proses ar gyfer pennu cyflog ac amodau athrawon fod ar waith erbyn 30 Medi 2018, fel bod modd cyflwyno'r cyflog ac amodau athrawon cyntaf i'w pennu gan Weinidogion Cymru o fis Medi 2019 ymlaen.

O ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'r Model Ymgysylltu ag Athrawon sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi'r model hwn ar waith fel y dull pennu – yn amodol ar ddiwygio Cam 6 i adlewyrchu newid i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig â rhanddeiliaid allweddol.

Roedd y 'Model Ymgysylltu ag Athrawon' a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad diweddar wedi'i lunio yn dilyn trafodaethau helaeth â'r holl rhanddeiliaid allweddol, ac mae'n ateb nifer o'r problemau a nodwyd gan undebau athrawon. Mae'r materion hyn yn cynnwys cadw nifer o elfennau allweddol o'r system bresennol ar gyfer pennu cyflog ac amodau athrawon, fel cadw ei natur statudol, a sicrhau bod modd ystyried arbenigedd y system addysg annibynnol, ymchwil a thystiolaeth ryngwladol fel rhan o'r broses. Hefyd, byddai'r dull arfaethedig yn cynnwys partneriaeth gymdeithasol daïrochrog yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, undebau athrawon a chyflogwyr, er mwyn ystyried pob mater perthnasol cyn gofyn am gyngor gan gorff arbenigol annibynnol.

Yn ogystal â'r adroddiad cryno hwn ar yr ymatebion a'r diwygiad i'r cam ymgynghori yn y broses bennu (Cam 6), mae llawer o'r sylwadau manwl a ddaeth i law yn cael eu hystyried yn ofalus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella ac egluro camau yn y broses, er enghraifft mewn perthynas â Chylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth ac ysgrifenyddiaeth Corff Adolygu Cymru annibynnol, gan roi sylw dyledus i'r sylwadau a ddaeth i law.

Bydd adborth ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf, gan gynnwys manylion llawn y mecanwaith terfynol, yn cael ei rannu â rhanddeiliaid allweddol a bydd yn gyfle arall i rhanddeiliaid allweddol godi unrhyw bryderon neu ofyn cwestiynau ychwanegol.